



Her Gyllideb Caerffili

Mae bwrdeistref sirol Caerffili yn wynebu gorfod gwneud arbedion pellach o fwy na £ 7.2 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf (2018/19).

Y mis diwethaf, cytunodd Cabinet y cyngor ar restr o gynigion arbed drafft a bydd y rhain bellach yn destun cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus eang. Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Dave Poole, "Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n galed i leihau effaith toriadau ariannol ar drigolion lleol. I ddweud y gwir, ni fydd dros hanner o'r £7.2 miliwn o arbedion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael effaith uniongyrchol ar y cyhoedd."

"Bydd yr arbedion hyn yn cael eu cyflawni drwy, er enghraifft, rheoli swyddi gwag, adolygiadau strwythurol a newidiadau gweithdrefnol i'r ddarpariaeth gwasanaeth o fewn y cyngor. Byddwn yn parhau i wneud ein gorau i flaenoriaethu ein cyllid i ddiogelu pobl fregus a gwasanaethau rheng flaen, ond mae ein targedau cynilo yn anodd iawn a bydd angen i ni wneud rhai penderfyniadau anodd dros y blynyddoedd nesaf", ychwanegodd.

"Mae'r cyngor yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, a byddaf yn annog cymaint o drigolion ag sy'n bosib cymryd rhan a chael dweud eu dweud fel y gallwn ddiffinio ein blaenoriaethau a darparu cyllideb sy'n diwallu anghenion a dyheadau ein cymuned."

"Mae'r cyngor yn parhau i weithio'n galed i leihau effaith toriadau ariannol ar drigolion lleol."



Bydd yr ymgynghoriad cyllideb yn rhedeg tan yr **8fed o Ionawr 2018**. Yna bydd yr adborth yn cael ei ystyried fel rhan o'r adroddiad cyllideb derfynol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r cyngor yn y Flwyddyn Newydd.



Cyng Dave Poole,
Arweinydd y Cyngor

Cymerwch amser i gwblhau'r arolwg ymgynghoriad ynghylch y gyllideb sydd ar y tudalennau rhydd yng nghanol y papur newydd.

Gellir hefyd cwblhau'r arolwg ar-lein ar www.caerffili.gov.uk/hergyllideb

Gwiriwch cyn i chi fwyta'r Nadolig hwn!

Bydd llawer o bobl yn cynllunio eu partïon Nadolig a nosweithiau gyda theulu a ffrindiau dros gyfnod yr ŵyl, felly mae tîm Diogelwch Bwyd y cyngor yn awyddus i dynnu sylw at bwysigrwydd gwirio sgôr hylendid bwyd sefydliadau bwyta lleol.

Mae rhai busnesau bwyd yn cael eu graddio ar eu safonau hylendid, yn seiliedig ar arolygiadau a gynhelir gan y tîm Diogelwch Bwyd. Caiff busnesau eu graddio o sero sy'n golygu 'gwelliant brys angenrheidiol' i radd uchaf o bump sy'n 'dda iawn'.

Ar hyn o bryd mae'r tîm yn gweithio gyda busnesau sydd â chyfraddau o ddau neu lai, trwy gynnig hyfforddiant penodol ar lanbau a diheintio, croes halogi, golchi dwylo a rheoli tymheredd, gyda'r nod o'u helpu i wella eu harferion hylendid bwyd a'u graddfa. Byddai swyddogion Diogelwch Bwyd hefyd yn annog unrhyw un sy'n ystyried sefydlu busnes bwyd i gysylltu â ni am help a chynghor.

Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i bob busnes yng Nghymru sy'n gwerthu a darparu bwyd arddangos eu sticer sgôr. Os ydych chi'n ymwybodol o fusnes bwyd nad yw'n dangos ei sgôr hylendid bwyd, cofiwch ei adrodd trwy ffonio 01495 235340 neu anfon e-bost: diogelwchiechdbwyd@caerffili.gov.uk

Gall preswylwyr hefyd wirio sgôr hylendid bwyd adeilad cyn ymweld trwy fynd ar-lein www.food.gov.uk/ratings

Ydych chi'n coginio'r Nadolig hwn?



Mae rhai camau syml y gallwch eu cymryd wrth baratoi eich twrci a fydd yn helpu i gadw cyfnod yr ŵyl yn rhydd rhag diflastod gwenwyn bwyd.



Os ydych yn prynu twrci wedi'i rewi, gwnewch yn siŵr ei fod **WEDI'I DDADMER YN LLWYR** cyn ei goginio trwy wirio nad oes crisialau iâ yn y ceudod. Gall twrci mwy o faint gymryd hyd at ddau ddiwrnod i ddadmer yn gyfan gwbl.



PEIDIWCH Â GOLCHI'R twrci cyn coginio. Mae golchi yn fwy tebygol o dasgu unrhyw germau dros arwynebau gwaith, prydau a bwydydd eraill. Bydd coginio cywir yn lladd unrhyw germau.



Cynlluniwch eich amser coginio yn iawn. Dilynwch yr amseroedd coginio a chyfarwyddiadau eraill ar y label. Fel rheol gyffredinol, ar gyfer twrci o dan 4.5 cilogram, caniatewch 45 munud fesul cilo ac 20 munud; am un yn pwyso rhwng 4.5 cilogram a 6.5 cilogram 40 munud y cilogram ac 20 munud; ac ar gyfer y rhai sydd dros 6.5 cilogram 35 munud y cilogram ac 20 munud - oll yn 180°C, 350°F, Marc Nwy 4 (ar ôl i'r popty gynhesu).



Gwiriwch fod y twrci wedi'i goginio'n iawn trwy dorri i mewn i ran trwchus y cig. Ni ddylai unrhyw ran o'r cig fod yn binc, a dylai unrhyw sudd sy'n rhedeg allan fod yn glir.

Yn olaf, dylai'r cig fod yn hollol boeth drwyddo.



GWYBOD EICH HAWLIAU Y NADOLIG HWN

Mae ein tîm Safonau Masnach yn awyddus i atgoffa defnyddwyr am faterion i'w hystyried yn ystod y cyfnod cyn y Nadolig.

DYMA RAI AWGRYMIADAU I'W HYSTYRIED:

- Rhaid i'r holl nwyddau a brynir fod o ansawdd boddhaol, yn addas i'w pwrpas ac fel y disgrifir. Os ydych chi'n prynu nwyddau diffygiol neu a ddisgrifir yn anghywir, mae Deddf Hawliau'r Defnyddwyr yno i'ch amddiffyn chi. Gweithredwch yn gyflym, mae gennych 30 diwrnod i hawlio ad-daliad, ar ôl hyn efallai y cewch gynnig atgyweiriad neu amnewidiad.
- Cofiwch mai prynwr y nwyddau fel arfer - nid y sawl sy'n eu derbyn fel rhodd - sydd â hawliau'r defnyddiwr. Bydd rhai siopau yn rhoi derbynneb rhodd i ganiatáu i'r sawl sy'n derbyn yr anrheg gael yr hawliau. Gwiriwch cyn i chi brynu.
- Sicrhewch eich bod yn gwirio'r holl bryniannau'n drylwyr i sicrhau eu bod yn gweithio cyn i chi eu lapio. Cadwch bob pecyn nes eich bod yn hollol sicr bod popeth yn iawn.
- Ydych chi'n siŵr am eich pryniant? Nid yw'r gyfraith yn rhoi'r hawl awtomatig i chi newid eich meddwl pan fyddwch chi'n prynu o siopau manwerthu (ee Os mai maint neu liw anghywir ydyw).
- Cadwch eich derbynebau. Mae gan fasnachwyr yr hawl i ofyn am ryw fath o brawf o brynu felly mae'n llawer haws profi'r pryniant hwnnw gyda derbynneb.
- Wrth brynu ar-lein, mae gwell hawliau gennych. Yn y rhan fwyaf o achosion pan fyddwch chi'n prynu ar-lein mae gennych hawl i ganslo'ch archeb a derbyn ad-daliad llawn hyd yn oed os nad yw'r nwyddau'n ddiffygiol.
- Byddwch yn ofalus ynghylch prynu ar-lein a defnyddiwch safleoedd cyfrifol yn unig. Sicrhewch eich bod yn cadw manylion eich archeb (Enw, cyfeiriad, manylion cyswllt, cyfeirnod archeb a manylion cynnyrch y masnachwr). Gwnewch yn siŵr bod unrhyw daliadau a wneir yn cael eu diogelu.
- Efallai y byddwch am brynu gwerth mwy na £100 gyda cherdyn credyd (ar yr amod eich bod yn clirio'ch gweddill bob mis er mwyn osgoi tâl llog). Mae'r cwmni cerdyn credyd yn atebol ar y cyd am unrhyw broblemau ac ni fydd gennych yr un lefel o ddiogelwch os byddwch yn talu trwy gerdyn debyd.
- Ceisiwch beidio â gor-ymestyn eich hun yn ariannol. Peidiwch byth â benthycu gan fenthycwyr drud neu anghyfreithlon neu fe allech chi barhau i dalu am y Nadolig hwn, y Nadolig nesaf.
- Gwylwch am ffugion. Byddwch yn amheus o nwyddau dylunwyr rhad, CDs DVDs neu persawrau. Bydd y nwyddau hyn o ansawdd gwael iawn a gallant fod yn anniogel.

Am ragor o gyngor, cysylltwch â Gwasanaethau Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth ar **03454 040506** neu ewch i www.adviceguide.org.uk I adrodd am fater safonau masnach, ffoniwch **01443 811300** neu e-bostiwch safonauasnach@caerffili.gov.uk

Casgliadau sbwriel ac ailgylchu dros y Nadolig



Diwrnod Casglu Arferol: Diwrnod Casglu Diwygiedig:

■ Dydd Llun 25ain Rhagfyr	■ Dydd Mercher 27ain Rhagfyr
■ Dydd Mawrth 26ain Rhagfyr	■ Dydd Iau 28ain Rhagfyr
■ Dydd Mercher 27ain Rhagfyr	■ Dydd Gwener 29ain Rhagfyr
■ Dydd Iau 28ain Rhagfyr	■ Dydd Sadwrn 30ain Rhagfyr
■ Dydd Gwener 29ain Rhagfyr	■ Dydd Sul 31ain Rhagfyr
■ Dydd Llun 1af Ionawr 2018	■ Dydd Mawrth 2il Ionawr
■ Dydd Mawrth 2il Ionawr	■ Dydd Mercher 3ydd Ionawr
■ Dydd Mercher 3ydd Ionawr	■ Dydd Iau 4ydd Ionawr
■ Dydd Iau 4ydd Ionawr	■ Dydd Gwener 5ed Ionawr
■ Dydd Gwener 5ed Ionawr	■ Dydd Sadwrn 6ed Ionawr

Atgoffir preswylwyr i roi eu biniau, eu blychau neu eu bagiau allan i'w casglu cyn 6am ar eu diwrnod casglu diwygiedig. **PEIDIWCH Â RHOI'R AILGYLCHU ALLAN I'W GASGLU MEWN BAGIAU DU OHERWYDD NI FYDD YN CAEL EI GASGLU (BAGIAU CLIR YN UNIG).**

- Bydd ailgylchu ychwanegol yn cael ei gasglu os caiff ei roi mewn **BAGIAU CLIR**.
- Bydd canolfannau ailgylchu ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.
- Bydd Toiledau Cyhoeddus hefyd ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan a Dydd Calan.

Am fwy o wybodaeth am ailgylchu, ewch i www.caerffili.gov.uk/ailgylchu neu ffoniwch **01443 866 533**

Diolch am eich ymdrechion GWYRDD!

Hoffem ddweud DIOLCH enfawr i bawb sydd wedi helpu i wella ansawdd ailgylchu yn y cartref dros y misoedd diwethaf.

Roedd y cyngor yn wynebu problemau difrifol a achoswyd gan leiafrif o drigolion yn gosod eitemau amhriodol yn eu bin ailgylchu - megis gwastraff bwyd, baw anifeiliaid anwes a deunyddiau eraill nad ydynt yn ailgylchadwy.

Roedd yr halogiad hwn yn achosi problemau mawr i'n contractwyr gwastraff, gan y gall dim ond un bin yn cynnwys eitemau anghywir halogi lori gyfan llawn deunydd. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cynhaliodd y cyngor ymgyrch fawr i godi ymwybyddiaeth i helpu atgoffa preswylwyr am yr hyn y gellir ac na ellir ei ailgylchu.

Dywedodd y Cyngorydd Nigel George, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, "Mae'r ymateb cadarnhaol gan breswylwyr wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i ansawdd ein hailgylchu a hoffwn ddiolch i bawb am eu hymdrechion hyd yn hyn. Mae ein contractwr gwastraff wedi nodi gwelliant sylweddol yn ansawdd y deunydd ailgylchu sy'n cael ei anfon i brosesu, gyda lleihad mawr yn y swm o halogiad a geir."

"Mae'n bwysig ein bod yn adeiladu ar y llwyddiant hwn ac yn annog mwy o bobl i ailgylchu'n llwyr er mwyn cwrdd â thargedau uchelgeisiol a osodir gan Lywodraeth Cymru dros y blyneddau ddiwethaf."

Mae ffigurau diweddaraf ailgylchu Llywodraeth Cymru yn dangos mai preswylwyr Caerffili yw'r ailgylchwyr gorau yn y Cymoedd gyda chyfradd ailgylchu o 65.5%. Dros yr 20 mlynedd diwethaf, mae cyfartaledd Caerffili wedi cynyddu dros 61 pwynt canran, o 4.2% ym 1998/99 pan ddechreuodd Llywodraeth Cymru gasglu'r data. Mae cyfradd ailgylchu eleni o 65.5% yn uwch na chyfartaledd Cymru o 64%.

Peidiwch â rhoi'r ailgylchu allan i'w gasglu mewn bagiau du oherwydd ni fydd yn cael ei gasglu (bagiau clir yn unig).
Am fwy o wybodaeth am ailgylchu ewch i www.caerffili.gov.uk



Cefnogwch Gaerffili'r Nadolig hwn



ae'r cyngor wedi bod yn gwrando ar adborth gan fodurwyr a busnesau lleol a effeithiwyd gan y gwaith ffordd parhaus ar gylchfan Pwll-y-pant yng Nghaerffili.



Gyda'r Nadolig yn agosáu, mae'r awdurdod wedi cytuno ar nifer o fesurau cadarnhaol i helpu cadw Caerffili'n llifo'n llyfn ac yn agored ar gyfer busnes dros gyfnod y Nadolig.

Ar adeg ysgrifennu, roedd newidiadau'n cael eu cynllunio i newid y cynllun rheoli traffig ar gylchfan Pwll-y-pant i helpu lleihau tagfeydd a gwella llif y traffig dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Mae camerâu sefydlog hefyd yn cael eu gosod i ddarparu delweddau o'r sefyllfa draffig ddiweddaraf fel y gall modurwyr wirio ar-lein cyn dechrau eu taith.

Mae Cabinet y Cyngor hefyd wedi cytuno i gyflwyno parcio am ddim am 2 awr ym meysydd parcio talu ac arddangos Canol Tref Caerffili i helpu rhoi hwb i fasnach.

Dywedodd y Cyngorydd Sean Morgan, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Rydym yn ymwybodol o'r effaith sylweddol y mae'r gwaith ar y gylchfan yn ei chael ac rydym wedi gwrando ar yr adborth gan yrwyr a busnesau lleol."

"Mae'r cyngor bob amser yn awyddus i gefnogi a hyrwyddo'r Stryd Fawr leol ac rydym am annog cymaint o bobl â phosibl i roi hwb i'r economi leol y Nadolig hwn. Ein neges yw bod Caerffili yn dal i fod yn agored ar gyfer busnes."

Mae'r cyngor a'r prif contractwr, Walters UK Ltd, yn monitro cynnydd y cynllun yn barhaus ac ar ôl y Nadolig bydd y trefniadau rheoli traffig yn dychwelyd i fod fel maent ar hyn o bryd (lonydd sengl) am gyfnod o amser.

Gellir cael y wybodaeth ddiweddaraf ar wefan y cyngor www.caerffili.gov.uk

Gostyngiadau'r Nadolig!

ydd siopwyr yn gallu mwynhau danteithion Nadoligaidd unwaith eto eleni, wrth i Dîm Rheoli Canol Trefi'r cyngor ymuno â manwerthwyr lleol i ddarparu eu llyfryn talebau poblogaidd tu hwnt.

Yn ôl ar gyfer 2017, mae gan lyfryn talebau'r Nadolig dros 100 cynnig a gostyngiadau gan fanwerthwyr ym Margod, Coed Duon, Caerffili, Rhisga ac Ystrad Mynach.

Gellir dod o hyd i'r llyfrynau yn:

- Bargod:** Morrisons, Poundworld a'r Llyfrgell
- Coed Duon:** ASDA, Sinema Maxime, Tidal Stores, Sefydliad y Glowyr Coed Duon a'r Llyfrgell
- Caerffili:** ASDA, Morrisons, Canolfan Ymwelwyr, Wetherspoons a'r Llyfrgell
- Rhisga:** Tesco a'r Llyfrgell
- Ystrad Mynach:** Tesco, y Llyfrgell a Thŷ Penallta

Gellir defnyddio'r cynigion a gynhwysir o fewn y llyfryn talebau tan ddydd Sadwrn 30ain Rhagfyr.



Pwy sy'n mynd â chi **adref** heno?


Wrth i dymor yr ŵyl nesáu, mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerffili Saffach yn annog gloddestwyr i wneud yn siŵr eu bod yn mynd adref yn ddiogel ar ôl noson allan gyda theulu a ffrindiau.

Mae menter newydd yn cael ei lansio ym mis Rhagfyr o'r enw 'Pwy sy'n Mynd â Chi Adref Heno?' sy'n anelu at wneud i bobl stopio a meddwl am ganlyniadau eu hymddygiad a'u ffordd o wneud penderfyniadau yn ystod noson allan.

Mae delwedd ysgogol sy'n cynnwys tacsî, car heddlu, ambiwlans a hers yn cael ei defnyddio i hyrwyddo'r ymgyrch. Mae hyn yn dangos yn glir y canlyniad posibl a allai dod o ymddygiad amhriodol megis meddwdod, trais, gyrru dan ddylanwad neu ddefnyddio tacsîs heb drwydded.

Dywedodd y Cyng. Eluned Stenner, Aelod Cabinet dros Ddiogelwch y Cyhoedd, "Rydym am i bobl fwynhau eu hunain a chael amser da yn ystod y tymor hwn, ond mae angen i ni hefyd sicrhau bod pawb yn ymwybodol o'r canlyniadau difrifol a allai godi o wneud penderfyniadau gwael. Dylai pobl feddwl yn ofalus am bwy sy'n mynd â nhw adref heno a'r effaith y gallai eu hymddygiad gael ar eraill y Nadolig hwn."

Mae'r cyngor yn gweithio gyda'r gwasanaethau brys a phartneriaid lleol eraill i helpu lledaenu'r neges bwysig hon fel rhan o'r fenter barhaus 'Caerffili Saffach ar ôl iddi Nosi'.



Am fwy o wybodaeth ewch i <http://your.caerphilly.gov.uk/saferccb/> neu ffoniwch 01443 864374

BYDD YN BAROD AR GYFER Y GAEAF

Gall tywydd y gaeaf fod yn ddifrifol a gall amharu yn sydyn ar ein bywydau bob dydd. Drwy fod yn ymwybodol a pharatoi'n well, gallwn ni helpu i leihau'r risg yn y cartref a thu allan. Gall hyd yn oed wneud un neu ddau o bethau syml nawr eich helpu i arbed amser ac arian. Gall paratoi nawr hefyd eich helpu chi i gadw'n iach ac osgoi mynd yn sâl. Isod mae rhai camau syml a all eich helpu i ddelio â thywydd garw:

CAEL EICH PIGIAD FFLIW: Cynigir brechiad fflw blynyddol yn rhad ac am ddim i bobl sydd â'r perygl mwyaf. Cysylltwch â'ch meddyg teulu neu fferylllydd os ydych chi'n meddwl y dylech chi, neu rywun rydych chi'n gofalu amdano/amdani, fod yn gymwys i gael pigiad fflw am ddim.

A YW'CH CERBYD YN BAROD AR GYFER Y GAEAF? Gwiriwch fod eich cerbyd mewn trefn dda cyn i chi deithio. Cofiwch - cyn ichi gychwyn eich taith, gwiriwch rhagolygon y tywydd.

PARATOWCH BECYN GAEAF: Fe allech chi fynd yn sownd yn eich car, felly paratowch becyn car gaeaf yn barod (sgriwr iâ, dadrewydd, gwifrau cyswllt, rhaw, blanced, sbectol haul rhag disgleirdeb haul isaf y gaeaf, tors). Ar gyfer teithiau hwy, meddyliwch am fwyd, dŵr a meddyginiaethau hefyd.

GWIRIWCH FOD EICH PIBELLAU WEDI'U HINSIWLEIDDIO: Mae inswleiddio pibellau yn helpu i gadw'r gwres i mewn, gan arbed arian i chi, ond mae hefyd yn golygu bod llai o berygl o bibellau yn gollwng wedi iddynt rhewi, gan achosi llifogydd, a gadael eich cartref heb ddŵr.

GWYBOD BLE MAE EICH STOP-TAP: Ydych chi'n gwybod ble mae eich stop-tap (a elwir hefyd yn stopcock)? Mae'n rhywbeth y dylech ei wybod fel y gallwch chi ddiffodd y dŵr i'ch cartref yn gyflym os oes problem.

GOFALWCH RHAG GWYNTOEDD CRYF: Mewn gwyntoedd cryf gall goed neu ganghennau ddod i lawr, gallai landeri haearn a llechi to fod yn angheuol. Gall dodrefn gardd a hyd yn oed deganau a thrampolinau blant hedfan o amgylch gan achosi difrod a niwed posibl.

PARATOWCH AR GYFER TORIAD PŴER: Rydym mor ddibynol ar y rhyngwyd, ond pe bai storm yn golygu y cafodd rhwydweithiau pŵer a ffôn symudol eu heffeithio, beth fydddech chi'n ei wneud? Ystyriwch charger batri ar wahân, a gallech storio gwybodaeth allweddol megis rhif llinell gymorth toriad pŵer (105) ar eich ffôn.

RHEWI GWLEDD: Meddyliwch am fwydydd addas i'r rhewgell a sut i'w cyfuno â storfa bwydydd er mwyn i chi allu parhau i baratoi gwledd i'r teulu - hyd yn oed os na allwch fynd allan i'r siopau.

Am fwy o wybodaeth ewch i: www.metoffice.gov.uk/barometer/advice neu www.caerffili.gov.uk/Services/Emergencies-and-crime-prevention/Winter-preparedness

GWELLA ANSAWDD AER SUT ALLAI HELPŮ?

Ar hyn o bryd mae ansawdd aer yn uchel ar agenda iechyd y cyhoedd, gydag ymchwil sy'n awgrymu bod llygredd aer yn cyfrannu at tua 50,000 o farwolaethau cynamserol ym Mhrydain bob blwyddyn. Mae allyriadau cerbyd yn achosi mwyafrif y llygredd, ond mae ffynonellau eraill yn cynnwys diwydiant, amaethyddiaeth a choelcerthi lleol.



Y prif lygrydd yw nitrogen deuocsid, sy'n cael ei ollwng o bibellau gwacau ceir. Yn unol â'r Strategaeth Ansawdd Aer Cenedlaethol, mae adran Iechyd yr Amgylchedd y cyngor yn monitro'r llygrydd hwn o gwmpas y fwrdeistref sirol yn weithredol. Mae nifer o gamau y gall gyrrwyr eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â llygredd aer, megis cynnal arddull gyrru cynnil a throï peiriannau ceir i ffwrdd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio.

Pan fydd injans yn segur maent yn dal i ddefnyddio tanwydd ac allyrru llygryddion. Mae troi injans ceir i ffwrdd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio a chaniatáu digon o amser yn ystod misoedd y gaeaf i ddadrewi cerbydau'n iawn yn defnyddio llai o danwydd a thrwy hynny'n lleihau allyriadau atmosfferig. Mae'n werth nodi bod awdurdodau lleol yn gallu rhoi hysbysiadau cosb benodedig i yrrwyr sy'n caniatáu i'w cerbydau redeg yn ddiangen pan nad ydynt yn symud. Mae hyn yn cynnwys aros am fwy na 1 funud (mae eithriadau i'r rheoliadau).

Mae llosgi gwastraff domestig, plastigau, pren, metel a gwastraff gardd ac ati mewn coelcerth yn allyrru gwahanol lygryddion peryglus i'r atmosffer. Bydd gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu'r cyngor yn casglu'r rhan fwyaf o wastraff cartref ac mae'n ddewis amgen glanach, a fydd yn galluogi'r deunyddiau i gael eu gwaredu'n gywir neu eu hail-ddefnyddio.

O dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae'n drosedd i achosi allyriadau mwg sy'n niweidiol i iechyd neu sy'n niwsans. Mae gan y cyngor ar hyn o bryd 22 Safle Ailgylchu Bach a 6 Safle Amwynderau Dinesig sy'n derbyn ystod eang o ddeunydd gwastraff, sy'n atal yr angen i oleuo coelcerth.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk

Ymrwymiad Caerffili i Wasanaeth Cwsmeriaid

Mae cyngor bwrdeistref sirol Caerffili yn darparu ystod eang o wasanaethau amrywiol sy'n caniatáu mynediad atynt gan bobl o bob oed a gallu - 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos.

Mae ein gwahanol adrannau'n ymdrin â phob agwedd ar ddarparu gwasanaethau o'r crud i'r bedd ac rydym o'r farn bod ein cwsmeriaid wrth wraidd ein busnes.

Rydym yn darparu addysg, gwasanaethau cymdeithasol, priffyrdd, iechyd yr amgylchedd, safonau masnach, hamdden, llyfrgelloedd, ailgylchu, diogelu'r cyhoedd, twristiaeth, cynllunio, tai, trafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â'r gwasanaethau cefnogi allweddol eraill sy'n cadw'r sefydliad yn rhedeg.

Er mwyn sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o safon i'n holl gwsmeriaid, mae'r cyngor wedi lansio set newydd o Safonau Gwasanaeth Cwsmeriaid Corfforaethol. Bydd gofyn i staff ar bob lefel ar draws y sefydliad adlewyrchu'r safonau hyn ym mhopeth mae nhw'n ei wneud.

Dyweddodd y Cyngorydd Colin Gordon, aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol CBSC, "Mae'n bwysig bod ein holl weithwyr yn deall eu rôl wrth sicrhau ein bod yn rhoi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Mae dros 171,000 o bobl yn byw ym mwrdeistref sirol Caerffili ac maen nhw oll yn gwsmeriaid inni, felly rydym am iddynt fod yn hyderus y gallant fwynhau profiad cwsmeriaid cadarnhaol wrth ddelio â'r cyngor ar unrhyw lefel."

Mae'r themâu allweddol a gynhwysir yn y safonau yn datgan y byddwn bob amser yn **GROESAWGAR, ANGERDDOL, DIBYNADWY, TEG** ac yn **YMWYBODOL** o ofynion ein cwsmeriaid.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.caerffili.gov.uk

Mae ein Cwsmeriaid a'n Staff wrth wraidd ein busnes



Our Customers and Staff are at the heart of our business

Byddwn bob amser...

YN GROESAWGAR...
Wrth ddarparu effaith gwrtais, gadarnhaol a pharhaol.



We will always be...

WELCOMING...
Providing a courteous, positive and lasting impact.

YN FRWDFRYDIG...
Yn ein nod i wella pethau er gwell.



PASSIONATE...
In our aim to change things for the better.

YN DDIBYNADWY...
Wrth adeiladu perthynas hirdymor yn seiliedig ar ymddiriedaeth a thryloywder.



DEPENDABLE...
Building long term relationships on trust and transparency.

YN DEG...
Wrth ymdrechu i wneud y peth iawn bob amser.



FAIR...
We will always strive to do the right thing.

MEWN CYSYLLTIAD...
Mewn ffordd ryngweithiol ac amrywiol yn ein sianeli cyfathrebu.



IN TOUCH...
Interactive and diverse in our communication.

Man gwyrddach i fyw, gweithio ac ymweld
A greener place to live, work and visit



Anrhydeddu gwirfoddolwyr sy'n serennu

Mae arwyr y werin ar draws y fwrdeistref sirol wedi cael eu cydnabod yng Ngwobrau blynyddol Cyflawniad y Sector Wirfoddol, a gynhaliwyd yn Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) yn trefnu'r seremoni wobrwyo i anrhydeddu gwirfoddolwyr sy'n ymgymryd â gwaith o bob adran yn y gymuned leol.

Yn ystod y noson, llongyfarchwyd yr enillwyr a chyflwynwyd gwobrau ym mhresenoldeb Arglwydd Raglaw Gwent, y Frigadwr Robert Aitken CBE DL, Yr Uchel Siryf Kevin Thomas Esq JP a Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y Cyng John Bevan.

Dyma restr lawn yr enillwyr eleni:

- GWIRFODDOLWR OEDOLION** ☆ May Davies
- GWIRFODDOLWR IFANC** ☆ Jessica Dallas
- GWIRFODDOLWYR GRŴP** ☆ Oakdale Partnership
- GWIRFODDOLWR YMDDIRIEDOLWYR** ☆ Andrea Soulsby
- GWIRFODDOLWR AMGYLCHEDDOL** ☆ Lynda Lee
- TAITH BERTSONOL** ☆ Mike Smith
- GWIRFODDOLWR RHIAINT Y FLWYDDYN** ☆ Wendy Howls
- GWIRFODDOLWR YSBRYDOLEDIG** ☆ Clive Harrison
- GWOBR DDINESIG Y MAER** ☆ Tracey Wallbank

Gwirfoddolwyr Seren
2017

Meddai'r Cyng Barbara Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, "Mae'r gwobrau'n ddathliad o ysbryd, brwdfrydedd ac ymroddiad diddiwedd ein sector gwirfoddol ffyniannus. Mae digwyddiadau fel hyn yn ein galluogi i wneud ein rhan wrth gydnabod y cyfraniad cadarnhaol y maent yn ei wneud i fywydau cymaint o bobl."

Darparwyd adloniant cerddorol yn y digwyddiad gan ddisgyblion talentog o ysgol Lewis Pengam. Noddwyd y gwobrau gan Hill and Co Financial Advisors, Molson Coors, Papurau Newydd Campaign, Groundwork Wales, The Parent Network, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Heddlu Gwent.

Cymorth i gyflogaeth

Eich cael yn ôl i waith gyda chymorth gyfeillgar am ddim.

- Hyfforddiant
- Cymorth 1-i-1
- Ffurflenni cais
- Technegau cyfweld
- CV's

01443 864227

adfywiocymunedol@caerffili.gov.uk
pontyddiwaith@caerffili.gov.uk



'Gweithio mewn partneriaeth â Chymunedau a Chanolfan Byd Gwaith'



Cynnig gofal plant yn cael ei estyn



Mae Cynnig Gofal Plant newydd Llywodraeth Cymru bellach ar gael mewn ardaloedd peilot ychwanegol ar draws y fwrdeistref sirol a gallai ddod ag arbedion ariannol enfawr i rieni cymwys sy'n gweithio 16 awr neu fwy'r wythnos.

O'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, gallai plant fod â hawl i gael 20 awr o ofal plant a ariennir gan y llywodraeth. Mae hyn yn ychwanegol at y 10 awr a ddarperir eisoes gan y Cyfnod Sylfaen rhan-amser a hyd at 30 awr o ofal plant yn ystod gwyliau'r ysgol. Gallai rhieni dderbyn yr arian nes y cynigir lle addysg amser llawn iddynt, fel arfer y mis Medi ar ôl pedwerydd pen-blwydd eu plentyn, sy'n gallu arbed teuluoedd hyd at £4,725 y flwyddyn.

Mae gwiriadau cymhwyster a ffurflen gais ar gael ar www.caerffili.gov.uk/cynniggofalplant

Bryn Meadows

10 Cilomedr CAERFFILI '18

Her-am y flwyddyn newydd?

Dylai trigolion sy'n chwilio am her i'r Flwyddyn Newydd ystyried Ras 10 Cilomedr Caerffili, sy'n dychwelyd ar Ddydd Sul Mai 20fed 2018.

Mae cofrestru nawr ar agor ar gyfer y digwyddiad blynyddol poblogaidd hwn, a welodd dros 2,450 o redwyr o bob gallu yn disgyn ar dref Caerffili yn 2017, o bob rhan o'r wlad er mwyn cymryd rhan yn y digwyddiad. Bydd y llwybr 10 cilomedr yn mynd â'r cyfranogwyr trwy ac o amgylch canol y dref, gan redeg heibio tirnodau fel cerflun Tommy Cooper ac yn rhoi golygfeydd anhygoel iddynt o'r castell. Hefyd yn dychwelyd mae Ras 2 Cilomedr Caerffili, sy'n cynnig y cyfle i redwyr iau cymryd rhan mewn digwyddiad wedi'u hamseru. Rhaid i gyfranogwyr fod o leiaf 8 oed ar ddiwrnod y digwyddiad er mwyn cymryd rhan.

Y ffioedd mynediad yw £20 ar gyfer ymgeiswyr heb gysylltiad, £18 ar gyfer ymgeiswyr yn gysylltiedig ag Athletau Cymru, £18 ar gyfer consesiynau (dros 60 oed a defnyddwyr cadeiriau olwyn) a £6.50 ar gyfer rhedwyr y Ras 2 Cilomedr.

Mae'r holl ffioedd yn cynnwys taliadau archebu a ffioedd prynu.

Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru ewch ar

www.caerphilly10cilomedr.co.uk

ebost: 10cilomedr@caerffili.gov.uk Llinell Ddigiwyddiadau: 029 2088 0011

Bydd rhieni cymwys ar gyfer y cynnig gofal plant yn:

- Yn gyfrifol am blentyn 3/4 oed sy'n gallu cael mynediad at addysg rhan amser
- Yn byw ym Masn Caerffili (gan gynnwys: wardiau Cwm Aber, Bedwas, Tretomos a Machen, Llanbradach, Morgan Jones, Pen-yr-heol, Sant Iago a Martin Sant). Cwm Sirhywi Isaf (gan gynnwys: wardiau Abercarn, Crosskeys, Rhisga ac Ynys-ddu) neu Ddwyrain Canol y Cymoedd (gan gynnwys: wardiau Argoed, Coed Duon, Cefn Fforest, Crymlyn, Trecelyn, Pengam, Penmaen a Phontllan-fraith). **ac**
- Yn gweithio 16 awr yr wythnos neu fwy **neu**
- Yn ennill yr un fath â gweithio 16 awr ar gyflog byw cenedlaethol neu isafswm cyflog cenedlaethol neu fwy **neu**
- Yn cael budd-daliadau gofal penodol



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar 01443 863232

DIGON YW DIGON

DYNA'R NEGES I BERCHNOGION CŴN ANGHYFRIFOL AR DRAWS BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI WRTH I'R CYNGOR LANSIO EI YMGYRCH NEWYDD SY'N ANELU AT FYND I'R AFAEL Â MATERION AMGYLCHEDDOL, GAN GYNNWYS CŴN YN BAEDDU.

Ym mis Medi eleni, cytunodd y cyngor i weithredu cyfres o fesurau newydd fel rhan o Orchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (GGMC), sy'n anelu at fynd i'r afael â pherchnogaeth cŵn anghyfrifol a chŵn yn baeddu drwy ymestyn gallu'r cyngor i orfodi yn erbyn perchnogion cŵn anghyfrifol. Ymunodd disgyblion o Ysgol Gynradd Ystrad Mynach â'r cyngor i lansio'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth amgylcheddol **'DIGON YW DIGON'** ym Mharc Ystrad Mynach. O ddydd Mawrth 14eg Tachwedd, gall unrhyw berchennog cŵn y canfyddir nad ydynt yn cydymffurfio â'r cyfyngiadau canlynol gael hysbysiad cosb benodedig o £100. Yn ogystal â hynny, mae disgyblion Ysgol Gymraeg Cwm Gwyddon yn Abercarn wedi gweithio'n galed i gynhyrchu gwaith celf trawiadol fel rhan o'r ymgyrch **'DIGON YW DIGON'**, a drosglwyddwyd i faneri mawr mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o fynychwyr er mwyn annog perchnogion cŵn i weithredu'n gyfrifol.

I ADRODD AM ACHOSION NEU DROSEDDWYR BAEDDU CŴN YM MWRDEISTREF SIROL CAERFFILI, FFONIWCW 01443 866566 NEU EWCH I WWW.CAERFFILI.GOV.UK/BALCHDERSTRYD



**DIGON YW DIGON
ENOUGH IS ENOUGH**

Y CYFYNGIADAU A OSODWYD FEL RHAN O'R GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS YW:

- Eithrio cŵn o bob maes chwarae caeëdig ac ardaloedd aml-ddefnydd.
- Yr angen i gadw cŵn ar dennyn mewn gerddi coffa caeëdig.
- Yr angen i berchnogion cŵn gael gwared ar faw cŵn mewn mannau cyhoeddus.
- Ei wneud yn ofynnol i berchnogion cŵn gludo cynhwysydd priodol ar gyfer ymdrin â'r gwastraff mae eu ci yn ei gynhyrchu (hynny yw, bob amser â'r modd i godi'r baw ci).
- Ei wneud yn ofynnol i berchnogion cŵn roi eu cŵn ar dennyn pan fydd swyddog awdurdodedig yn mynnu hynny ar unrhyw dir gyhoeddus, er mwyn atal niwsans lle ystyrir bod y ci heb fod dan reolaeth neu'n achosi niwed neu ofid.



Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr

Anfonwyd ffurflenni cais at drethdalwyr cymwys yn dilyn mabwysiadu'r Cyngor o 'Gynllun Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr' Llywodraeth Cymru i ddarparu cefnogaeth i fusnesau manwerthu strydoedd fawr cymwys yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt gan yr ailbrisio ardrethu diweddar.

Mae'r Cynllun yn cynnig hyd at £500 o ostyngiad ar fil ardrethi busnes fesul eiddo ar gyfer eiddo Haen 1 a hyd at £1,500 yr eiddo ar gyfer eiddo Haen 2; mae'r cynllun yn gymwys yn unig i'r flwyddyn ariannol gyfredol 2017-18. Dywedodd y Cyng. Colin Gordon, Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol, "Rydym yn croesawu'r penderfyniad i gefnogi busnesau, yn enwedig y rhai yr effeithir arnynt gan gyflwyniad lefelau newydd o ardrethi busnes o fis Ebrill 2017. Byddwn yn annog busnesau sy'n derbyn ffurflen gais drwy'r post i'w chwblhau a'i dychwelyd yn ddi-oed."



Ar gyfer trethdalwyr nad ydynt wedi derbyn ffurflen, ewch i www.caerphilly.gov.uk/Business/Business-rates/High-street-rate-relief lle mae rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais ar gael.

Mae Safonau Masnach yn rhybuddio yn erbyn atebion diet 'DATRYSIAD CYFLYM'

Disgwylir i oddeutu un o bob tri o bobl yn y DU wneud addewid Blwyddyn Newydd i golli pwysau ac mae Safonau Masnach Caerffili yn rhybuddio yn erbyn 'atebion datrysiadau cyflym' sydd yn aml yn rhai dros dro.



Mae'r tîm yn awyddus i atgoffa unrhyw un sy'n ystyried cymryd ychwanegion bwyd mai ategu'r diet yw bwriad rhain ac ni ddylid eu hystyried yn lle diet amrywiol a ffordd iach o fyw. Cyn gwneud penderfyniadau ynghylch ffordd o fyw neu newidiadau i ddeiet, mae'n bwysig hefyd siarad â gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig. Mae ychwanegion bwyd yn dod mewn amrywiaeth o ffurfiau; tabledi traddodiadol, capsïwlau a phowdrau, yn ogystal â diodydd. Mae llawer o fathau eraill o fwydydd wedi'u marchnata at y rhai sy'n ceisio colli pwysau ac mae maethiad chwaraeon yn cynyddu mewn poblogrwydd. Mae'r cynhyrchion hyn wedi'u rheoleiddio'n llym er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel a'u labelu'n gywir i ddefnyddwyr wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Safonau Masnach yn annog pobl sy'n ystyried prynu bwyd ac ychwanegion bwyd a werthir ar y stryd fawr, y rhyngwyd ac ar y cyfryngau cymdeithasol, i'w prynu gan gyflenwyr adnabyddus yn unig. Yn Llys Ynadon Cwmbran ym mis Hydref 2017, anfonwyd Jeffrey Young, Cyfarwyddwr JY Nutrition Limited ym Mhontymister, i'r carchar am 35 wythnos, wedi iddo bledio'n euog i 12 o gyhuaddiadau o dan y rhannau amrywiol o ddeddfwriaeth bwyd ynghylch gwerthu bwyd ac ychwanegion bwyd.



I adrodd ar fater i dim Safonau Masnach Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ewch i www.caerffili.gov.uk/safonauasnach neu ffoniwch 01443 811 300

Rhifau Defnyddiol Useful Numbers

PRIF SWITSFWRDD
MAIN SWITCHBOARD
☎ **01443 815588**

Minicom Minicom
☎ **01443 873626**

Rhif argyfwng ar gyfer
Gwasanaethau'r Cyngor:
Emergency Number for
Council Services:
☎ **01443 875500**
(Allan o Oriau yn unig • Out of hours only)

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Blant
Children's Social Services
☎ **0808 100 1727**

Gwasanaethau
Cymdeithasol i Oedolion
Adults' Social Services
☎ **0808 100 2500**

BalchderStryd StreetPride
☎ **01443 866566**

Cyngor i Ddefnyddwyr
Consumer Advice
☎ **03454 040506**

Ymholiadau Treth y Cyngor
Council Tax Enquiries
☎ **01443 863002**

Ailgylchu Dodrefn
Furniture Recycling
☎ **01685 846830**

Bathodyn Glas Blue Badge
☎ **01443 866571**

Budd-daliadau Tai
/Treth y Cyngor
Housing & Council
Tax Benefits

Ceisadau Newydd New Claims:
☎ **01443 866567**
Hawlwyr Presennol Existing Claimants:
☎ **01443 864099**

Rydym yn croesawu
galwadau yn Gymraeg.
We welcome calls in Welsh.



Digwyddiadau / What

Jack and the Beanstalk

6/12/2017 - 30/12/2017

Sefydliad y Glowyr Coed Duon
Blackwood Miners' Institute

■ OWEN MONEY yw seren y pantomeim llawn hwyl eleni gyda chast cyfan o actorion, cantorion a dawnswyr talentog. Paratowch eich hun am daith hwyliog, llawn caneuon, llawn-jôcs, llawn chwerthin trwy hud ac anhrefn gwlad y panto! Am fanylion, rhestr o berfformiadau, prisiau tocynnau ac archebion, ewch i wefan y Sefydliad y Glowyr neu ffoniwch.

■ This year's fun-packed pantomime stars OWEN MONEY and a whole cast of talented actors, singers and dancers. Prepare yourself for a fun-packed, joke-crammed, song-filled, fast-moving, laugh-a-minute ride through the magic and mayhem of panto land! For details, schedule of performances, ticket prices and bookings, please visit the BMI website or phone.

01495 227 206



Llawr Sglefrio Iâ Bargod

Bargoed Ice Rink

6/12/2017 - 10/12/2017

Canol tref Bargod • Bargoed town centre

■ Lleolir Llawr Sglefrio Iâ Bargod poblogaidd ym maes parcio danddaearol Morrisons. Bydd ogof Siôn Corn am ddim ddydd Sadwrn 9 a dydd Sul 10 Rhagfyr rhwng 11am a 4pm trwy garedigrwydd Cyngor Tref Bargod.

■ The popular Bargoed Ice Rink will be located in Morrisons underground car park. A free Santa's grotto will be present on Saturday 9 and Sunday 10 December between 11am and 4pm courtesy of Bargoed Town Council.

02920 880 011



Chwilio am Santa • Search for Santa

6/12/2017 - 6pm

Parc Gwledig Dyffryn Sirhywi •
Sirhowy Valley Country Park

■ Bydd angen batris newydd arnoch ar gyfer eich fflashlamp ar gyfer y noson gyffrous hon o grwydro drwy'r coed yn edrych am gliwiau wrth chwilio am Siôn Corn. Addas ar gyfer oeddrannau 5 ac uwch. Mae angen archebu ar gyfer y digwyddiad hwn.

■ You'll need new batteries for your torch for this exciting night-time wander through woods as we look for clues in our search for Santa. Suitable for ages 5 and above. Booking required for this event.

01495 227206



Marchnad Nadolig Caerffili •

Caerphilly Christmas Market

9/12/2017 - 10/12/2017

Canol tref Caerffili •

Caerphilly town centre

■ Profwch golygfeydd, synau ac arogleuon tref a chastell sy'n paratoi ar gyfer y Nadolig gyda reidiau traddodiadol ffair hwyl, arogleuon o win poeth sbeislyd, theatr stryd hudol a thros 100 o stondinau bwyd, crefft a rhoddion.

■ Experience the sights, sounds and smells of a town and castle preparing for Christmas with traditional funfair rides, smells of mulled wine, captivating street theatre and over 100 food, craft and gift stalls.

02920 880 011

Gweithdai Llusern Af

River of light Lantern

9/12/2017 - 10/-12/2017

Canolfan Hamdden Caer
Caerphilly Leisure centre

■ Mwynhewch ychydig o amser hwyl i'r teulu ym 9 a 10 Rhagfyr wrth yrru eich cerbydau i'r plant i wneud llusern arbennig Nadoligaidd i yrru yn y Light Parade ym 14 Rhagfyr. Digwyddiad ffurfiol y Goleuni Caerffili ar 14 Rhagfyr. Digwyddiad ffurfiol y Goleuni Caerffili ar 14 Rhagfyr.

■ Enjoy some FREE family fun time and bring your own lantern to the Light Parade on 14 December. This is a free event.

02920 880 011



Gwneud dynion eira

Wooden snowman r

9/12/2017 • 10am - 2pm

Parc Cwm Darran

■ Pwy ddywedodd fod angen eira arnoch i aros yn ddiogel i wneud dyn eira pren gyda'r Gwarchodwyr Gallwch hefyd archebu dyn eira pren o'r Parc a'r dymuno gwneud un. Gallwch archebu un trwy ffonio 01443 875557. Tâl: £5 y dyn eira pren a rhaid archebu ar gyfer y digwyddiad.

■ Who said you need snow to build a snowman? You can make a wooden snowman with the Rangers at Parc Cwm Darran? You can also order a wooden snowman from the Parc and collect it, if you don't fancy making one. You can order one by phoning 01443 875557. Charge: £5 per wooden snowman and booking required for this event.

01495 227206



Cofrestrwch i dderbyn gwybodaeth reolaidd am ddigwyddiadau lleol drwy

I gael gwybodaeth am sgysiau, clybiau llyfrau a sesiynau crefft sydd ar y gweill yn eich llyfrgell leol e

www.caerffili.gov.uk/digwyddiadau  **www.co**

Sign up to receive regular information about local events by e-mailing

For information about upcoming talks, book clubs and craft sessions at your local library v



on y Goleuni Workshops

• 10am - 5pm
ffili •

yn RHAD AC AM DDIM a dewch
i'w chario yng Ngorymdaith
diad am ddim yw hwn.
g the children along to make
annual Caerphilly River of
nt.



a pren making

deiladu dyn eira? Beth am
yr ym Mharc Cwm Darran?
gasglu, os nad ydych yn
ffonio 01443 875557.
y digwyddiad hwn.
an? Why not have a go at



e-bostio: digwyddiadau@caerffili.gov.uk

wch i www.caerffili.gov.uk neu ffoniwch 01443 864068

www.caerphilly.gov.uk/events

ng: events@caerphilly.gov.uk

visit www.caerphilly.gov.uk or call 01443 864068



Gorymdaith Llusern Afon y Goleuni River of Light Lantern Parade

14/12/2017 • 6.30pm
Caerphilly Town centre
Caerphilly Town centre

■ Bydd yr orymdaith yn cychwyn yn man Parcio a Theithio Gorsaf Reilffordd Caerffili ac yna'n dod i lawr i dref Caerffili, gan oleuo Teras yr Orsaf, Heol Caerdydd a Stryd Sain Ffagan ar ei ffordd i'r man terfyn ar Heol y Cilgant. Bydd yr Orymdaith yn gorffen gydag arddangosfa tân gwyllt hardd dros Gastell Caerffili.

■ The parade will begin at the Caerphilly Railway Station Park and Ride and then make its descent down to Caerphilly town, lighting up Station Terrace, Cardiff Road and St Fagans Street on its way to the finale on Crescent Road. The Parade will finish with a beautiful fireworks display over Caerphilly Castle.

02920 880 011



Gwneud ceirw Llychlyn pren • Wooden reindeer making

16/12/2017 • 10am - 2pm
Parc Cwm Darran

■ Dewch draw a gwneud eich Rudolph, Prancer neu Dancer 3 troedfedd eich hun. Gallwch hefyd archebu carw Llychlyn pren os nad ydych yn dymuno gwneud un (yn dibynnu ar argaeledd). Gallwch archebu un trwy ffonio 01443 875557. Codir tâl o £10 ar gyfer carw Llychlyn pren ac mae rhaid archebu ar gyfer y digwyddiad hwn.

■ Come along and make your own 3ft tall Rudolph, Prancer or Dancer. You can also order a wooden reindeer if you don't fancy making one (subject to availability). You can order one by phoning 01443 875557. Charge £10 per wooden reindeer and booking required for this event.

01495 227206

Eich Diogelu Chi • Protecting You

Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a theg i bobl fyw a gweithio ynddo ac i ymweld. Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

Erlyniadau Safonau Masnach • Trading Standards prosecutions

Enw Name	Tramgwydd Offence	Dyfarniadau Court Decision
Jeffrey Young o Benybont-ar-Ogwr	17 Hydref 2017 yn Llys Ynadon Cwmbran. Gwerthu bwyd anniogel trwy fethu â datgan presenoldeb alergenau. Camddisgrifio atchwanegiadau bwyd mewn perthynas â chynhwysion. Defnyddio hawliadau iechyd a maeth heb ganiatâd ar labelu atchwanegiadau bwyd. Methu â darparu manylion olrhain mewn perthynas â chynhyrchion bwyd ac atchwanegiadau bwyd. Methiant i gydymffurfio â'r gofynion labelu mewn perthynas ag Atchwanegiadau Bwyd. Defnydd twyllodrus o Nod Masnach ar gynhyrchion bwyd.	35 wythnos o garchar. Costau o £1,100 i'r Awdurdod Lleol, £115 gordal i ddioddefwyr. Rheoliadau Atchwanegiadau Bwyd (Cymru) 2003. Rheoliadau Hawliadau Maeth ac Iechyd (Cymru) 2007. Rheoliadau Bwyd Cyffredinol 2004. Deddf Diogelwch Bwyd 1990. Deddf Nodau Masnach 1994.
Jeffrey Young of Bridgend	17 October 2017 at Cwmbran Magistrates Court. Selling unsafe food by failing to declare the presence of allergens. Misdescribing food supplements in relation to ingredients. Use of non-permitted health and nutritional claims on labelling of food supplements. Failing to provide traceability details in relation to food products and food supplements. Failure to comply with the labelling requirements in relation to Food Supplements. Fraudulent use of a Trade Mark on food products.	35 weeks imprisonment. £1,100 costs to the Local Authority, £115 victim surcharge. Food Supplement (Wales) Regulations 2003. Nutrition and Health Claims (Wales) Regulations 2007. General Food Regulations 2004. Food Safety Act 1990. Trade Marks Act 1994.
Armored Evans o Dderi	29 Medi 2017 yn Llys Ynadon Casnewydd. Meddiant ar gyfer cyflenwi a gwerthu pyrsiau, coluron, persawr eillio a phersawr ffug.	£575 o ddirwy, £800 o gostau i'r Awdurdod Lleol, £62.50 gordal i ddioddefwyr. Deddf Nodau Masnach 1994.
Armored Evans of Deri	29 September 2017 at Newport Magistrates Court. Possession for supply and the sale of counterfeit purses, make up, aftershave and perfume.	£575 fine, £800 costs to the Local Authority, £62.50 Victim Surcharge. Trade Marks Act 1994.
David Glyndwr Lewis o Fachen	15 Medi 2017 yn Llys Ynadon Casnewydd. Methu â chludo Cŵn Cymorth person anabl mewn Cerbyd Hackney.	£265 o ddirwy, £150 o gostau i'r Awdurdod Lleol, £30 gordal i ddioddefwyr. Deddf Cydraddoldeb 2010.
David Glyndwr Lewis of Machen	15 September 2017 at Newport Magistrates Court. Failing to carry a disabled person's Assistance Dog in a Hackney Carriage.	£265 fine, £150 costs to the Local Authority, £30 Victim Surcharge. Equality Act 2010.

**Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau
To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions**

Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y cyngor yn gweithredu mewn modd agored. Ni ddylid ailddefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.
● Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

Adroddiad perfformiad wedi'i gyhoeddi

Bob blwyddyn mae'r cyngor yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi'n fanwl sut mae e wedi perfformio yn ystod y 12 mis blaenorol.

Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynnyddol yn cynnwys crynodeb ariannol o sut mae'r awdurdod wedi perfformio o fewn ei gyllidebau, crynodeb o berfformiad yn erbyn Amcanion Lles ar gyfer 2016/17 ac asesiad terfynol o'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei Flaenoriaethau Corfforaethol 2013-17 Gellir gweld fersiwn llawn o'r adroddiad ar gyfer 2016/17 trwy ymweld â'r ddolen isod:

www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies-plans-and-policies/Improvement-Plan/performance-report?lang=cy-gb

Performance report published

Every year the council publishes a report which sets out in detail how it performed during the previous 12 months.

The Annual Performance Report includes a financial summary of how the authority performed within its budgets, a summary of performance against Well-being Objectives for 2016/17 and a final assessment of the progress made against its 2013-17 Corporate Priorities. A full version of the report for 2016/17 can be viewed by visiting the link below:

www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Strategies-plans-and-policies/Improvement-Plan/performance-report

Cynigion Arbedion Drafft 2018/19

Mae'r tablau canlynol yn dangos y rhestr gynhwysfawr o gynigion arbedion a gytunwyd gan Gabinet y cyngor.

Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cynnig	Arbedion	Cyfanswm Cyllideb	Disgrifiad	Effaith ar y Cyhoedd
Arbedion na fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd	£802mil			DIM
Cynnal a Chadw Adeiladau Ysgol - Tynnu'r gyllideb yn ôl ar gyfer cynlluniau 50/50.	£333mil	£333mil	Cynllun 50/50 (proses ymgeisio) gydag Ysgolion i'w wario ar safle'r ysgol. Gwneir cynigion i gael mynediad at falansau wrth gefn am gyfnod o 3 blynedd fel y gall y cynllun hwn barhau yn y tymor byr. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar lefel gwariant a ariennir gan refeniw ar atgyweirio a chynnal a chadw ein hysgolion.	CANOLIG
Cefnogaeth Iaith a Llefydd i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol - swyddi gwag.	£66mil	£484mil	Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cefnogaeth a chymorth i ddisgyblion ag anawsterau dysgu penodol yn ein hysgolion. Y bwriad yw dileu 2 swydd wag (Cyfwerth ag 1.4 Amser Llawn) yn dilyn ymddeoliadau ar ddiwedd Tymor yr Haf 2017. Dim effaith ar y pryd ar ddarpariaeth ar gyfer disgyblion nag ysgolion mewn perthynas â'r ddarpariaeth statudol.	CANOLIG
Mentrau Gwella Ysgolion - Gostyngiad yn y gyllideb.	£120mil	£250mil	Cyllid wedi'i dargedu wedi'i gyfarwyddo gan y Prif Swyddog Addysg yn ymwneud ag Ysgolion sydd mewn anawsterau (e.e. Safonau). Yn y lle cyntaf, effaith isel ar Ysgolion os yw'r Prif Swyddog Addysg yn gallu manteisio ar falansau addysg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ateb hirdymor felly bydd yn codi i effaith ganolig.	CANOLIG
Llyfrgelloedd - Gostyngiad yn y Gronfa Lyfrau.	£25mil	£380mil	Mae'n annhebygol y bydd defnyddwyr gwasanaeth yn sylwi ar unrhyw effaith sylweddol.	ISEL
Llyfrgelloedd - Gorffen archebu papurau newydd a lleihau tanysgrifiadau ar-lein.	£20mil	£25mil	Llai o ddarpariaeth Mynediad Agored yn ein llyfrgelloedd. Gorffen archebu papurau newydd copi caled ar bob safle (£10mil) a lleihau nifer y tanysgrifiadau ar-lein sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd (£10mil).	CANOLIG
Lleihad yn y taliad i Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG) ar gyfer Swydd Cydlynnydd y Cynllun Gwyliau.	£15mil	£40mil	Rôl y swydd hon yw cynghori a chefnogi unrhyw grŵp sydd am ddarparu gweithgareddau ar gyfer Plant a Phobl Ifanc (8 i 18 oed) yn ystod cyfnod gwyliau'r ysgol. Bydd yr effaith bosibl ar CMGG gydag effaith fach iawn ar ddefnyddwyr gwasanaeth gan y byddai'r Gwasanaeth leuenctid yn cymryd unrhyw ddiffyg mewn capasiti.	CANOLIG

CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER ADDYSG A DYSGU GYDOL OES - £1,381mil

Gwasanaethau Corfforaethol (Caffael Cyllid A Gwasanaethau Cwsmeriaid, TG, Eiddo, AD a Chyfathrebu a Iechyd A Diogelwch)

Cynnig	Arbedion	Cyfanswm Cyllideb	Disgrifiad	Effaith ar y Cyhoedd
Arbedion na fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd	£912mil			DIM
Cwsmer yn Gyntaf - Lleihau'r nifer o staff.	£80mil	£1,321mil	Cyflawnir hyn trwy reoli swyddi gwag sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Strategaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid a gymeradwywyd.	ISEL

CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER GWASANAETHAU CORFFORAETHOL - £992mil



Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch Y Cyhoedd A Pholisi Corfforaethol

Cynnig	Arbedion	Cyfanswm Cyllideb	Disgrifiad	Effaith ar y Cyhoedd
Arbedion na fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd	£977.5mil			DIM
Dadgomisiynu contract Rhyddhau o'r Ysbyty Age Concern.	£46mil	£46mil	Dadgomisiynu contract ar gyfer niferoedd cymharol isel o bobl sy'n derbyn gwasanaethau lefel isel, anstatudol am gyfnod byr. Mae'n rhan o ymgyrch ledled Cymru i hyrwyddo mwy o annibyniaeth.	ISEL
Dadgomisiynu dau gontract Clwb Cinio.	£12mil	£12mil	Mae nifer fach o bobl yn mynychu'r 2 Glwb Cinio hyn. Efallai y bydd angen i'r gwasanaeth ddod i ben neu bydd angen rhoi trefniadau gwahanol ar waith os na ellir dod o hyd i ffrwd ariannu amgen.	ISEL
Incwm Cleientiaid Gofal Cartref - Ad-drefnu'r gyllideb. Cyllidebau Incwm.	£75mil	£1,610mil	Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n cynyddu'r cap wythnosol ar gyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer gofal dibreswyl a fydd yn cyfnewid i gynnydd bach mewn incwm bob blwyddyn.	ISEL
Lleihad bach mewn Gofal Seibiant a gomisiynir yn allanol i bobl hŷn ac oedolion ag anableddau corfforol.	£30mil	£428mil	Bydd y gostyngiad bach yn cael ei wrthbwysu gan drefniadau eraill y gellir eu darparu drwy'r Grant Seibiant i Ofalyddion.	ISEL
Dadgomisiynu contract eiriolaeth DEWIS (cartrefi preswyl).	£12mil	£57mil	Dadgomisiynu contract gyda chyllideb o £45mil wedi'i gadw ar gyfer yn ôl y galw. Mae contract yn ôl y galw yn fwy o adlewyrchiad o lefel y galw am y gwasanaeth.	ISEL
Dadgomisiynu contract Gofal a Thrwsio (Diogelwch yn y Cartref).	£13mil	£13mil	Mae cynlluniau eraill ar gael sy'n darparu'r gwasanaeth hwn.	ISEL
Dadgomisiynu contractau CMGG a MENCAP.	£57mil	£57mil	Daeth contract MENCAP (52 mil) i ben beth amser yn ôl ac mae contract CMGG (5 mil) yn ymwneud â chostau canolog CMGG.	ISEL
Dadgomisiynu contract Stroke Association.	£18mil	£18mil	Gwasanaethau amgen sydd ar gael drwy'r GIG.	ISEL
Lleihau contract Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru (Eirioli) o 50%. (A elwid gynt yn 'Crossroads').	£36mil	£70mil	Mae gwasanaethau eiriolaeth ar gael gan asiantaethau eraill.	ISEL
Goblygiadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.	£264mil	£12,998mil	Cyfanswm y gyllideb darparu gofal cartref yw £12.998 mil (gan gynnwys taliadau uniongyrchol). Gall defnyddwyr gwasanaeth posibl ar gyfer rhai gwasanaethau gael eu cyfeirio at wasanaethau cost isel neu ddim cost arall.	ISEL
Dileu 1 swydd Helpwr Fan Prydau ar Glud Cyllidebau Staffio.	£7.5mil	£148mil	Bydd angen taliad diswyddo. Ar hyn o bryd mae 6 helpwr fan (cyfwerth â 3 swydd llawn amser). Mae'r lleihad cyfwerth â 17 awr.	ISEL
Cynyddu'r taliad ar gyfer Prydau ar Glud. Cyllidebau Incwm.	£11mil	£168mil	Cynnydd arfaethedig o 20c y pryd. Ar hyn o bryd codir £3.10 am bryd a gymhorthdalwyd a £5.45 am bryd heb gymhorthdal.	CANOLIG
Cynyddu'r taliad am brydau Ysgolion Uwchradd o 10c o fis Ebrill 2018, h.y. o £2.15 i £2.25. Cyllidebau Incwm.	£50mil	£1,502mil	Ni fydd yn effeithio ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed oherwydd eu bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Roedd y cynnydd diwethaf o 5% yn 2014/2015.	ISEL
Cynyddu taliad am brydau Ysgolion Cynradd o 10c o fis Medi 2018 h.y. o £1.90 i £2.00. Cyllidebau Incwm.	£54mil	£1,574mil	Ni fydd yn effeithio ar y teuluoedd mwyaf agored i niwed oherwydd eu bod yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. Roedd y cynnydd diwethaf o 5% yn 2014/2015.	ISEL
Cofrestrwydd - Cynyddu ffioedd seremonïau yn unol â chost darparu'r gwasanaeth. Cyllidebau Incwm.	£10mil	£225mil	Sicrhau bod costau darparu seremonïau yn cael eu hadfer yn llawn. Mae'r gyllideb incwm gyfredol eisoes yn cael ei gor-gyflawni, felly mae'r cynnydd hwn yn realistig.	ISEL
Cyflwyno Ffioedd Triniaeth Llygod Mawr. Cyllidebau Incwm.	£20mil	DIM	Tâl newydd. Cyflwyno tâl o £20 ar gyfer triniaethau llygod mawr yn y cartref.	CANOLIG
Dileu un swydd Rheoli Pla/Tresmas Anifeiliaid. Cyllidebau Staffio.	£29mil	£159mil	Dileu un swydd Rheoli Pla/Tresmas Anifeiliaid wag o dîm o 5. Bydd achosion yn cael eu trin ar sail brys a risg iechyd.	ISEL
Dileu 2 swydd Warden Diogelwch Cymunedol. Cyllidebau Staffio.	£40mil	£285mil	Dileu 2 swydd gan leihau cyfanswm y swyddi i 7.3 cyfwerth ag amser llawn.	CANOLIG
Lleihau Monitro Ansawdd Aer a Thir Halogedig a'r Defnydd o Gontractwyr.	£15mil	£62mil	Llai o fonitro o ardaloedd llygredig.	CANOLIG
Y Sector Gwirfoddol - Gostyngiad mewn Cyllideb Cymorth Technegol.	£4mil	£19mil	Lleihau grantiau i gefnogi cyngor ac arweiniad technegol sydd ar gael i'r Sector Gwirfoddol i sefydlu hyfywedd prosiectau cyn y gallant wneud cais am gyllid pellach.	ISEL
Lleihau'r gyllideb Llesiant.	£10mil	£41mil	Dyma arian a ddefnyddir ar gyfer prosiectau amgylcheddol yn y gymuned. Bydd gostyngiad mewn grantiau yn golygu bod llai o arian ar gael ar gyfer prosiectau megis datblygu gardd gymunedol a hyfforddi gwirfoddolwyr.	ISEL

Cyfanswm Yr Arbedion Ar Gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch Y Cyhoedd A Pholisi Corfforaethol - £1,791mil

Adfywio A Chynllunio, Peirianeg, Cymuned A Hamdden A Thai				
Cynnig	Arbedion	Cyfanswm Cyllideb	Disgrifiad	Effaith ar y Cyhoedd
Arbedion na fydd yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd	£1,225.5mil			DIM
Gostyngiad yn y Gronfa Adfywio Gymunedol.	£137mil	£232mil	Defnyddir y Gronfa Adfywio Gymunedol gan fudiadau cymunedol a gwirfoddol i wneud cais am gyllid ar gyfer mentrau lleol. Roedd tanwariant o £115 mil yn 2016/17.	ISEL
Cymorth a Chyllid Busnes - Gostyngiad mewn Cyllideb Grantiau Busnes.	£12mil	£62mil	Gellir defnyddio Grantiau Busnes i fusnesau bach i sefydlu neu i ehangu. Tanwariant o £4 mil yn 2016/17.	ISEL
Cyrchfannau a Digwyddiadau - Adolygiad o ddigwyddiadau yn Llancaiach Fawr.	£10mil	£120mil	Bydd adolygiad o ddigwyddiadau yn cael ei gynnal ac ni chaiff rhai o'r digwyddiadau sydd ddim yn ariannol ymarferol eu cynnal yn y dyfodol.	ISEL
Adnewyddu Trefol - Lleihau cyllideb Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo.	£7mil	£27mil	Lleihau gwariant ar ymgyrchoedd 'Dewiswch y Stryd Fawr' ac amllder baneri Canol Tref a ailosodwyd.	ISEL
Gostyngiad yng nghyllideb Cynnal Priffyrdd.	£524mil	£4,620mil	Mae hyn yn cynrychioli gostyngiad o 11.3% yn y gyllideb i'w gyflawni trwy, er enghraifft, gostyngiad yn y rhaglen trin arwynebau cerbyttffyrdd a lleihau amllder glanhau cwteri. Bydd cyllideb buddsoddi cyfalaf o dros £2 filiwn yn cynorthwyo i leihau'r gofyniad cynnal a chadw parhaus.	CANOLIG
Gostwng cyllideb mân waith Rheoli Traffig.	£6mil	£41mil	Gostyngiad yn y gyllideb sydd ar gael ar gyfer rheoli traffig ar raddfa fach, e.e. tawelu traffig, arwyddion cyflymder ac ati.	ISEL
Gostwng cyllideb Cynnal a Chadw'r gaeaf.	£35.5mil	£1,140mil	Mae hyn yn ostyngiad o 3.1% yn y gyllideb a bydd yn cael ei gyflawni trwy adolygiad o lwybrau graeanu. Mae'r arbediad hwn yn ddibynnol ar y tywydd.	ISEL
Goleuadau Stryd - gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw anarferol.	£5mil	£299mil	Bydd contract newydd yn cynyddu effeithlonrwydd. Mae cyllideb gyfalaf o £50 mil yn cynnwys rhaglen ailosod colofnau hefyd yn bodoli. Gall buddsoddiad cyfalaf gynorthwyo i leihau'r gofyniad cynnal a chadw parhaus.	ISEL
Gostwng cyllideb ymgynghoriaeth/arolygu ffyrdd.	£4mil	£22mil	Lleihau amllder adroddiadau cyflwr ffyrdd.	ISEL
Gostwng cyllideb Strwythurau.	£20mil	£115mil	Lleihad yn yr amllder o fonitro ac arolygu strwythurau, e.e. pontydd ac ati.	ISEL
Gostyngiad yng nghyllideb cyflogau Diogelwch y Ffyrrdd.	£25mil	£61mil	Mae'r tîm diogelwch y ffyrdd yn gweithio gydag ysgolion i gynnal rhaglenni addysgol. Mae hyn yn ostyngiad yn y tîm o 3 i 2 o staff llawn amser.	ISEL
Gostyngiad yng nghyllideb hebryngwyr croesfannau ysgol. Cyllidebau Staffio.	£38mil	£315mil	Ar hyn o bryd mae 62 o weithwyr rhan amser (cyfwerth â 18 gweithiwr llawn amser). Mae'r gostyngiad hwn gyfwerth â 7 swydd rhan amser (cyfwerth â 2 weithiwr llawn amser). Mae cymhwyster ar gyfer hebryngwyr croesfannau ysgol wedi'i seilio ar feini prawf ROSPA a bydd safleoedd cyfredol yn cael eu hasesu ar ôl i'r gweithwyr presennol adael / ymddeol.	ISEL
Gostwng cyllideb Astudiaethau Damweiniau.	£10mil	£29mil	Cytundeb newydd gyda mwy o hyblygrwydd i ganolbwyntio ar feysydd targed / risg.	ISEL
Gostwng cyllideb cynnal a chadw Arwyddion Traffig.	£11mil	£69mil	Arbedion effeithlonrwydd ar y contract cynnal a chadw presennol (£4 mil). Lleihad yn y gwaith a gynlluniwyd (£7 mil) a fydd yn lleihau'r gallu i osod offer newydd yn lle offer sydd wedi dod i ddiwedd ei oes.	ISEL
Priffyrdd i gynyddu'r incwm o ailgodi tâl ar gwmnïau cyfleustodau. Cyllidebau Incwm.	£15mil	£168mil	Trwy gynyddu'r ffioedd a / neu gynyddu amllder y codir tâl.	ISEL
Gostyngiad yn y gyllideb cynnal a chadw llochesi bws.	£10mil	£64mil	Lleihau'r rhaglen cynnal a chadw ar gyfer llochesi bws.	CANOLIG
Gweinyddiaeth ranbarthol o ad-dalu gweithredwyr bysiau ar gyfer teithio am ddim (cynllun tocyn bws am ddim). Cyllidebau Incwm (Grant).	£10mil	£127mil	Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, bydd gweithio ranbarthol yn lleihau costau gweinyddu cyffredinol ond trwy ddarparu gwasanaeth gweinyddol i awdurdodau cyfagos, bydd Caerffili yn cynyddu ei incwm.	ISEL
Gwasanaethau Chwaraeon a Hamdden - Cau Canolfan Hamdden Pontllan-fraith.	£81mil	£81mil	Ar hyn o bryd mae'r cynnig hwn yn destun ymgynghoriad. Mae'r Ganolfan Hamdden yn costio £81 mil y flwyddyn i'r Cyngor i'w rhedeg, hyd yn oed ar ôl incwm gan ddefnyddwyr y ganolfan.	CANOLIG
Gwasanaeth Antur Caerffili - cynyddu incwm. Cyllidebau Incwm.	£20mil	£195mil	Prisiau i'w cynyddu, y prif gleientiaid yw'r adran addysg, ysgolion a sefydliadau eraill.	ISEL
Cyflwyno ffi "gweinyddol" ar gyfer Cwsmeriaid Gwastraff Masnachol. Cyllidebau Incwm.	£20mil	DIM	Ffi newydd. Codir ffi o £1 miliwn y flwyddyn ar gwsmeriaid gwastraff masnachol eisoes ar gyfer casgliadau biniau masnachol.	ISEL
Adolygu taliadau am wastraff swmpus. Cyllidebau Incwm.	£50mil	£19mil	Ffi o £16 (£15 ar hyn o bryd) am 1 i 3 eitem a chodi £5 yr un am eitemau ychwanegol. Bydd hyn yn berthnasol i bob eitem, gan gynnwys soffas a matresi.	CANOLIG
CYFANSWM ARBEDION AR GYFER CYMUNEDAU - £2,276mil				

Costau Awdurdod Cyfan Ychwanegol

Mae hyn yn cynnwys arbedion cyffredinol eraill a wneir ar draws y sefydliad sydd heb unrhyw effaith uniongyrchol ar y cyhoedd. Mae'r rhain i gyd yn ymwneud ag adlinio cyllideb, e.e. lleihau cyllidebau cyfredol i gyfateb â gwariant gwirioneddol.

**CYFANSWM YR ARBEDION AR GYFER
YR AWDURDOD CYFAN £765mil**



Treth y Cyngor

Cynyddu Treth Y Cyngor O **4.52%** ar gyfer **2018/19**.

Eich Adborth

Rhowch eich barn i ni ar y cynigion arbedion a amlinellir. Efallai yr hoffech chi nodi a ydych yn cytuno neu'n anghytuno'n gryf gydag unrhyw un o'r toriadau a restrir, gan roi rhesymau dros eich barn.

Os ydych yn teimlo bydd toriadau cyllideb mewn ardal benodol yn effeithio arnoch chi fel unigolyn (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un o'r canlynol (eich tarddiad ethnig, rhyw, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, aillbennu rhywedd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r iaith Gymraeg, iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion) rhowch fanylion isod.

Dywedwch wrthym am unrhyw syniadau sydd gennych am sut y gallwn gyfyngu effaith unrhyw un o'r cynigion hyn neu wneud pethau'n wahanol i sicrhau arbedion pellach.

Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni sampl cynrychioliadol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi eich hun. Yr wyf yn cwblhau'r arolwg hwn . . .

☐ Fel un o drigolion y
Fwrdeistref Sirol

☐ Yn cynrychioli sefydliad
trydydd sector

☐ Fel person
busnes

☐ Fel aelod
etholedig

☐ Aral
(nodwch) _____

Fy Nghod Post yw:

--	--	--	--	--	--	--	--	--	--

Diolch i chi am gymryd yr amser i lenwi'r holiadur hwn. Dychwelwch y ffurflen hon i unrhyw un o brif swyddfeydd y cyngor, neu eich llyfrgell, canolfan hamdden, swyddfa arian, swyddfa dai neu ganolfan gwasanaethau cwsmeriaid agosaf.

Os oes well genych, gallwch hefyd ddychwelyd yr arolwg yn y post at: Liz Sharma, Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Gyfathrebu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, CF82 7PG.